WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Fynwy

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 126A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Alastair McQuaid, Nick Selwyn a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Jane Holownia i gynnal yr Asesiad o Welliant ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae’r Cyngor yn newid y ffordd mae’n gweithredu yng ngolau ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a’r angen i weithredu’n gynaliadwy. Mae’r Cyngor yn cyflawni gwelliant mewn llawer o feysydd blaenoriaeth, ond nid yw bob amser yn dangos buddion i ddinasyddion o’i weithgareddau mewn rhai meysydd 8

Mae Amcanion Gwella clir gan y Cyngor, ac mae’n parhau i fireinio’i drefniadau i gynorthwyo cyflawni’r amcanion hynny 10

Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella mewn llawer o feysydd blaenoriaeth 15

Bu gwelliant mewn llawer o wasanaethau sy’n cynorthwyo pobl agored i niwed y mae angen cymorth arnynt, er nad yw effaith gwaith y Cyngor yn cael ei ddangos yn glir bob amser mewn perthynas â thai pobl hŷn 15

Mae’r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu, ac mae’n cydnabod bod lle i wella o hyd 20

Ar y cyfan, gwella mae perfformiad y Cyngor wrth helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol 23

At ei gilydd, mae gan y Cyngor ddull da o werthuso gwasanaethau ac mae’n cryfhau’r ffordd mae’n adrodd am effaith ei weithgareddau ar ddinasyddion a chymunedau er mwyn mynd i’r afael â gwendidau o ran sut mae mynd ati i fesur perfformiad 26

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 32

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy 33

**Atodiad 3**
Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy a’i ddefnydd o adnoddau 34

**Atodiad 4**
Amcanion Gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 37

**Atodiad 5**
Cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau blaenorol ar gyfer gwella 39

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 At ei gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn newid y ffordd mae'n gweithredu yng ngolau ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a'r angen i weithredu'n gynaliadwy. Mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliant mewn llawer o feysydd blaenoriaeth, ond nid yw bob amser yn dangos buddion i ddinasyddion o'i weithgareddau mewn rhai meysydd.

3 Mae'r Cyngor yn parhau â'i uchelgais i sicrhau gwelliant er gwaetha'r hinsawdd ariannol heriol. Mae'n trawsnewid y ffordd y mae'n trefnu'i hun ac yn cyflwyno gwasanaethau. Mae angen iddo sicrhau bod y brif raglen newid hon yn parhau i gael ei rheoli'n effeithiol ac y gall ddangos buddion i ddinasyddion.

4 Canfuom hefyd fod perfformiad y Cyngor wedi gwella mewn llawer o feysydd blaenoriaeth. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- bu gwelliant mewn gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl agored i niwed y mae angen cymorth arnynt, er nad yw effaith gwaith y Cyngor yn cael ei ddangos yn glir bob amser mewn perthynas â thai pobl hŷn;
- mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu ac mae'n cydnabod bod lle i wella o hyd; a gwella gan mwyaf mae perfformiad y Cyngor o ran helpu creu a chynnal yr ardal fel lle diogel, ffyniannus a dymunol.

5 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gan gynnwys:

- cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella;
- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- cyhoeddi asesiad o'i berfformiad; ac
- ystyried arweiniad statudol.

6 Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod:

- Y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, a bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Y Cyngor wedi cyflawni pob un o'i ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, yn benodol wrth ddangos effaith ei weithgarwch, ac wrth adrodd yn llaw am y pethau y dywedodd y byddai'n eu gwneud.

7 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad nad yw'r Cyngor, er y gall gyfeirio at welliannau mewn llawer o feysydd, yn dangos effaith ei waith bob amser, ac mewn rhai meysydd nid yw'n mynd ati i werthuso pa mor dda mae wedi perfformio.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol, ond gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cynorthwyo gwelliant:

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **C1** | Gwerthuso effaith cyllidebau llai, nodi a delio â risgiau ac adrodd yn gyhoeddus ar yr effaith ar wasanaethau llinell flaen. |
| **C2** | Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â chynigion a chamau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio a rheoleiddio allanol blaenorol. |
| **C3** | Gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill er mwyn helpu gwneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. |
| **C4** | Sicrhau bod ymrwymiadau'r *Cynllun Iaith Gymraeg* yn cael eu cyflawni ac y cydymffurfir â hwy. |
| **C5** | Pennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer yr holl amcanion, a chefnogi monitro perfformiad effeithiol drwy adrodd yn rheolaidd a chlir ar ddeilliannau. |
| **C6** | Gwella trefniadau hunanasesu ac adroddiadau am berfformiad drwy:<br>• adrodd yn glir ynghylch a lwyddwyd i fodloni'r camau gweithredu a'r targedau a osodwyd ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella;<br>• darparu mwy o ddata perfformiad cymharol i ddinasyddion er mwyn eu galluogi i farnu perfformiad yn well;<br>• adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella i bwyllgorau dethol er mwyn galluogi aelodau i graffu ar berfformiad a'i herio; a<br>• chynnwys hunanwerthusiad clir yn ei Adroddiad Perfformiad o ba un a yw wedi bodloni pob Amcan Gwella neu a yw'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at eu bodloni. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

9 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

10 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Nid yw cynllunio ar gyfer gwelliant a chyflawni gwelliant yn golygu y bydd gwasanaethau'n gwella drwy'r amser, a gall olygu gwneud yr un peth gyda llai. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

11 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn ein barn ar yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

12 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn newid y ffordd mae'n gweithredu yng ngolau ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a'r angen i weithredu'n gynaliadwy. Mae'r Cyngor yn cyflawni gwelliant mewn llawer o feysydd blaenoriaeth, ond nid yw bob amser yn dangos buddion i ddinasyddion o'i weithgareddau mewn rhai meysydd

13 Canolbwyntiodd ein gwaith ar sut mae'r Cyngor yn ei drefnu ei hun er mwyn cyflawni gwelliannau, y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun, ei gynnydd a'i effaith, a sut mae'n mynd ati i adrodd am ei berfformiad i ddinasyddion. Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith y rhoddwyd blaenoriaeth iddo i'w wneud eleni. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn yr Archwilydd Cyffredinol am berfformiad y Cyngor wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Mesur a'r cynnydd penodol mae wedi'i wneud yn cyflawni yn erbyn ei Amcanion Gwella.

14 Yn ogystal â bod â threfniadau effeithiol ar waith ar gyfer cynllunio a chyflawni gwelliant, mae'n bwysig bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o raddau'r cynnydd a'r gwelliant mae'n eu gwneud. Mae'r Cyngor wedi amlinellu ei asesiad ei hun o'i berfformiad yn *Ein Perfformiad yn 2010/11, Cynllun Gwella - Rhan 2* (yr Adroddiad Perfformiad). Canfuom fod y Cyngor yn mynd ati'n dda yn gyffredinol i fonitro'i berfformiad ei hun, ac mae wrthi'n diwygio'i fesurau llwyddiant er mwyn dangos effaith ei waith ar ddinasyddion a chymunedau yn Sir Fynwy yn well. Un her i'r Cyngor, yn gyffredin â chynghorau eraill Cymru, yw gwneud yn siwr nad ydyw, wrth ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer gwella yn y dyfodol a sicrhau cyflawni yn erbyn amcanion penodedig, yn colli golwg ar yr angen i gynnal 'busnes fel arfer'.

15 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn parhau â'i uchelgais i sicrhau gwelliant ar gyfer ei gymunedau, er gwaetha'r hinsawdd ariannol heriol. Mae'n trawsnewid y ffordd y mae'n trefnu'i hun ac yn cyflwyno gwasanaethau. Mae angen iddo sicrhau bod y brif raglen newid hon yn parhau i gael ei rheoli'n effeithiol a'i bod yn dangos y buddion a fwriedir i ddinasyddion. Roedd y prif ganfyddiadau a oedd yn sail i'r llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* gan yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

- Ar lefel uwch mae yna awydd i newid a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn ei drefnu'i hun, yn cyflwyno gwasanaethau ac yn ymgysylltu â dinasyddion. Mae ehangder a chyflymder newid yn creu heriau, ac mae angen rheoli'r rhain yn ofalus er mwyn gallu cyflawni'r deilliannau a fwriedir.
- Mae'r Cyngor wedi mireinio'i flaenoriaethau ac mae'n rhoi ffocws manylach ar gyflawni deilliannau i ddinasyddion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau cynlluniau cyflwyno er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu targedu at gyflawni amcanion allweddol.
- Mae mwy o weithio ystwyth a mwy o gydweithredu yn ailffurfio'r gweithlu ac yn dechrau ysgogi newid diwylliant. Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu agenda moderneiddio'r Cyngor. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau dull cwbl integredig o reoli adnoddau ariannol, adnoddau staff ac adnoddau ffisegol.

- Mae dull sefydledig o gynllunio ariannol yn y tymor canol wedi galluogi'r Cyngor i ragweld heriau adnoddau'r dyfodol, nodi dewisiadau ar gyfer lleihau gwariant a chyflawni cyllidebau cytbwys. Mae gwaith yn parhau i ddeall effaith penderfyniadau arbedion ar ddinasyddion a chryfhau rhywfaint o wybodaeth reoli allweddol.
- Mae ymrwymiad parhaus a dull o weithio gydag eraill sy'n canolbwyntio ar fusnes yn annog ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau. Mae angen datblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer mynd ati'n dda i sicrhau rheoli cydweithredu a mecanweithiau i werthuso effaith y trefniadau hynny.
- Mae'r Cyngor yn cryfhau ei ddull o reoli perfformiad, ac mae'n cyflwyno systemau newydd ar gyfer barnu effaith ei weithgarwch, er y cymer gryn amser i'r rhain ddod yn rhan o waith rheoli arferol o ddydd i ddydd. Mae fformatau adrodd cliriach a threfniadau cryfach ar gyfer rheoli prosiectau wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Nid yw gwybodaeth am gostau a chymariaethau â safonau mewnol ac allanol i alluogi'r Cyngor i werthuso deilliannau ar gael yn eang eto.

16 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni'i ddyletswyddau o dan y Mesur i gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella, a bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

17 Mae'r Cyngor wedi derbyn yr holl feysydd ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf ohonynt, a chânt eu crynhoi yn Atodiad 5. Lle mae camau gweithredu'n dal i fynd rhagddynt, byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu.

## Mae Amcanion Gwella clir gan y Cyngor, ac mae'n parhau i fireinio'i drefniadau i gynorthwyo cyflawni'r amcanion hynny

18 Mae'r Cyngor wedi pennu tair blaenoriaeth strategol iddo'i hun: gwella ysgolion; diogelu pobl sy'n agored i niwed; a chefnogi menter, creu swyddi ac entrepreneuriaeth. Yn 2011, pennodd y Cyngor bump o ddeilliannau poblogaeth newydd hefyd sy'n mynegi'n gliriach beth mae'n ceisio'i wella ar gyfer dinasyddion a chymunedau yn Sir Fynwy o dan y tri maes blaenoriaeth hyn, sef bod pobl:

- yn byw'n ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed;
- yn byw bywydau iach a chyflawn;
- yn elwa o addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau;
- yn elwa o economi sy'n ffynnu ac sy'n cefnogi menter a thwf cynaliadwy; ac
- yn elwa o amgylchedd sy'n amrywiol, yn fywiog ac yn gynaliadwy.

19 Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu ei naw Amcan Gwella gwreiddiol a osodwyd yn 2010-11 a'u disodli â chwe amcan newydd, sy'n adlewyrchu ei dair blaenoriaeth gyffredinol. Mae'r rhestr lawn o Amcanion Gwella a'r newidiadau a wnaed rhwng 2010-11 a 2011-12 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 4. Mae'r Amcanion Gwella newydd yn canolbwyntio ar ei dair blaenoriaeth graidd sef ysgolion, gwasanaethau i blant ac oedolion sy'n agored i niwed, a gweithgareddau sy'n cefnogi creu swyddi a chyfoeth yn yr economi leol.

20 Mae Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, *Looking to the Future: Corporate Improvement Plan for 2011/14 [Edrych i'r Dyfodol: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2011/2014]*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011 yn amlinellu sail resymegol glir ar gyfer dewis y meysydd y mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar eu gwella. Dewiswyd y rhain ar sail perfformiad presennol, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a barnau partneriaid strategol.

21 Mae cynllun y Cyngor ar gael yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor ac mae copi caled ar gael o wneud cais. Mae crynodeb o'r cynllun ar gael yn ogystal. Caiff fersiynau Cymraeg, ffont bras a Braille eu darparu ar gais. Mae hyn yn unol â *Chynllun Iaith Gymraeg (2008-2011)* y Cyngor.

22 Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir beth yw'r Amcanion Gwella mae'n anelu i'w cyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor, ac mae wedi nodi mesurau llwyddiant bras. Mae Cynllun Gwella'r Cyngor yn amlinellu sut bydd pob Amcan Gwella'n cael ei reoli drwy gynlluniau gwella gwasanaethau. Nid oes tystiolaeth bob amser o'r cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a mesurau llwyddiant cysylltiedig, gwaelodlinau a thargedau ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella. Nid yw'r wybodaeth yn *Edrych i'r Dyfodol: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2011/2014* yn ddigon cadarn bob amser i ddangos cyflawniad effeithiol ar gyfer rhai o'r Amcanion Gwella. Mae gweithredu'n mynd rhagddo i gryfhau cysylltiadau rhwng y cynlluniau gweithredu ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a chynlluniau gwasanaethau unigol.

**Mae ffocws cadarn gan y Cyngor ar draws yr awdurdod cyfan ar reolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol, gyda llinellau atebolrwydd clir, ac mae'n cysoni adnoddau â meysydd i'w gwella**

23 Rhagwelwyd tanwariant cyffredinol o £1.6 miliwn ar ddiwedd mis Medi 2011. Mae'r sefyllfa wedi gwella'n fawr ers y sefyllfa yr adroddwyd amdani, sef gorwariant o £2 filiwn ar ddiwedd mis Mehefin 2011. O fewn cyfarwyddiaethau unigol, roedd y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc £825,000 dros gyllideb (1.6 y cant dros gyllideb) ac roedd adran y Prif Weithredwr £452,000 dros gyllideb (4.3 y cant dros gyllideb). Caiff yr achosion hyn o orwario eu cydbwyso gan achosion sylweddol o danwario a ragwelwyd, er enghraifft, £849,000 (tri y cant o dan gyllideb) yn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Diwylliant, ac arbedion effeithlonrwydd gwell wrth reoli costau corfforaethol ac ardollau o £222,000, a pherfformiad gwell o ran adennill taliadau'r dreth gyngor sy'n orddyledus o £753,000. Mae cyllideb y Cyngor wedi'i rheoli'n dda dros y blynyddoedd diwethaf, a llwyddwyd i gyflawni cyllidebau cytbwys ar lefel cyfarwyddiaeth a lefel gorfforaethol.

24 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ymagwedd at gynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Mae *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* y Cyngor yn tynnu sylw at y sefyllfa ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hir, ac mae'n amlinellu senarios amrywiol sy'n galluogi'r Cyngor i ragweld amgylchiadau newidiol ac i reoli'i risgiau ariannol. Mae dealltwriaeth dda o faterion ariannol gan y Cabinet a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, ac mae hyn wedi arwain at broses gynllunio ariannol tymor canolig gadarn iawn ers rhai blynyddoedd bellach.

25 Yn unol â phob cyngor yng Nghymru, mae angen i Sir Fynwy leihau ei wariant refeniw, ac yn 2010-11 mae angen iddo wneud arbedion o £7 miliwn (4.69 y cant o gyllideb 2010-11) dros y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r Cyngor wedi nodi ble mae am geisio gwneud arbedion, a gwnaed y penderfyniadau hyn yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae cyfrifoldeb gan adrannau unigol i gyflawni'r arbedion, ac mae'r Cyngor yn hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio er mwyn lleihau gwariant a gwella ansawdd gwasanaethau drwy drawsnewid y modd mae'n gweithredu ac yn cyflwyno gwasanaethau.

26 Ers ein llythyr *Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Awst 2011, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith pellach i asesu ei adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Ym mis Tachwedd, aeth y Cyngor ati i ddiweddaru ei *Gynllun Ariannol Tymor Canolig* gan amlinellu ei sefyllfa ariannol ar gyfer 2012-13 ymlaen. Mae'r cynllun, a gafodd ei ystyried gan y Cabinet yn ddiweddar, yn dangos diffyg a ragwelir o £4 miliwn yn 2012-13, a fydd yn codi i £7.7 miliwn yn 2015-16.

27 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda chynlluniau i fynd i'r afael â'r hinsawdd ariannol heriol. Mae wedi cynnig na fydd unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor yn 2012-13, ac mae'r Cabinet wedi cytuno ei flaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau, hynny yw: ysgolion; gwasanaethau i blant ac oedolion agored i niwed; a gweithgareddau sy'n cefnogi creu swyddi a chyfoeth yn yr economi leol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rhaid iddo, er mwyn cynnal ei ymrwymiadau yn y meysydd hyn, ddod â ffocws gwirioneddol ar agweddau eraill ar ei fusnes er mwyn lleihau costau,

cynyddu incwm neu'r ddau. Mae'r ymagwedd yn cael ei mabwysiadu'n gynyddol drwy gymhwyso 'meddwl drwy systemau' i ailgynllunio prosesau gwaith a dileu gwastraff.

28 Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen am adnoddau cyfalaf sylweddol i wella seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd ac uwchraddio cyfleusterau presennol. Y gofyniad cyfalaf a ragwelir ar gyfer y *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* yw £273.5 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £80 miliwn ar gyfer gwella priffyrdd, a £40 miliwn ar waith cynnal a chadw eiddo sy'n deillio o arolygon o gyflwr stoc, yn ogystal â £120 miliwn i wella'r ystâd addysg. Ym mis Rhagfyr 2011, cafodd y Cyngor ei hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllideb o £79.5 miliwn o dan y fenter *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*. Caiff cost y rhaglen ei hariannu'n gyfartal gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. O gofio mai dim ond £26.3 million oedd cyfanswm gwariant cyfalaf y Cyngor yn 2010-11, mae'n wynebu heriau sylweddol o ran darparu cyllid cyfatebol i'r rhaglen *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*, ond mae'n hyderus y bydd ganddo arian cyfatebol yn ei le cyn dechrau'r rhaglen yn 2014.

29 Mae'r dull sefydledig gan y Cyngor o gynllunio ariannol, a hanes o lwyddo i wario o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yn cynnig sylfaen gadarn i'r Cyngor, ynghyd â blaenoriaethau clir a ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau. Mae gan y Cyngor hanes o lwyddo i gyflawni arbedion, a rhaid iddo gynnal y ffocws hwn wrth fynd ymlaen. Bydd gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus.

30 Fe wnaeth yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol roi ei farn yn ddiweddar ar gyfrifon y Cyngor, a daeth i'r casgliad bod y datganiadau ariannol yn foddhaol yn gyffredinol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

**Mae'r Cyngor yn annog ymgynghori â chymunedau ac yn cefnogi mentrau lleol, ond nid yw bob amser yn bendant fod yr ymgysylltu hwn yn arwain at wasanaethau gwell**

31 Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i fod yn rhan o'r ystyried, y trafod a'r gweithredu ar sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, a pha wasanaethau y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt i'w gwella. Tynnodd waith asesu gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 sylw at ymgysylltu â'r cyhoedd fel mater dadleuol sylweddol yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae wedi bod yn destun ein hastudiaeth Cymru gyfan, lle'r ydym wedi adolygu'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws llywodraeth leol.

32 Canfu ein harolwg fod gan y Cyngor brosesau ar gyfer hysbysu'r cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd, a'i fod yn dangos ymrwymiad cadarn i ymgysylltu â dinasyddion. Caiff gwybodaeth ymgysylltu ei monitro ond nid ei gwerthuso ar lefel gorfforaethol, ond mae angen gwneud mwy i bennu effaith a chost ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â dros 30 o weithgareddau ymgysylltu yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae prosesau ar waith i adrodd canlyniadau ymgynghoriadau unigol. Fodd bynnag, mae'n anodd dangos yn glir y gwahaniaeth y mae ei waith ymgysylltu'n ei wneud, ac effeithiolrwydd strategaeth y Cyngor.

**Mae trefniadau newydd y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn cynnwys y potensial i gynorthwyo gwelliant parhaus, ond mae'r trefniadau'n dal i ddatblygu ac aeddfedu, ac mae lle i wella**

33 Mae defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hanfodol ar gyfer trawsnewid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, gwella deilliannau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi ffyrdd gwahanol o weithio, cyflwyno gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, gan alluogi cynghorau i gyflawni mwy am lai. Caiff y ffordd y mae technoleg yn cael ei chyflwyno a'i rheoli effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws cynghorau, ac mae'n effeithio ar bob gweithiwr cyngor bron. Gall rheolaeth wael o TGCh arwain at ddefnydd amhriodol o systemau, diffyg systemau a rhwystredigaeth ar draws sefydliad.

34 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno fframwaith polisi cyffredinol sy'n amlinellu ei weledigaeth ar gyfer defnyddio technoleg i drawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w ddinasyddion. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon wedi'u datblygu eto.

35 Mewn trefniant ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Heddlu Gwent, daethpwyd ag ystod o wasanaethau technoleg ynghyd mewn Canolfan Rhannu Adnoddau. Mae'r ganolfan yn unigryw yng Nghymru, ac mae ei datblygiad yn cefnogi strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru i annog cydweithredu TGCh yn y sector cyhoeddus.

**Mae gan y Cyngor hanes o lwyddo wrth weithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau**

36 Mae'r Cyngor yn cydweithredu ag ystod o sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni gwelliannau i ddinasyddion yn Sir Fynwy. Er enghraifft, mae prif rhaglenni gwaith fel *Rhaglen Llesgedd Gwent*[1] a Chydweithredu Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru[2] yn dangos ymrwymiad i gydweithredu sy'n ailfodelu'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i lawer o ddinasyddion a rhanddeiliaid, ac maent yn raglenni newid mawr o ran y modd y mae'r Cyngor yn trefnu'i waith. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg trwy'r Prosiect Gwyrdd[3] i ddatblygu dewisiadau cynaliadwy yn lle tirlenwi.

1 Partneriaeth yw Rhaglen Llesgedd Gwent rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a chynghorau Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd, ac mae wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn creu timau o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaethau integredig i bobl sy'n agored i niwed.

2 Sefydlwyd pedwar consortiwm addysg awdurdod lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru at ddibenion gweinyddu cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon, Penaethiaid a dirprwy Benaethiaid. Mae Consortiwm De Ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau addysg Blaenau Gwent, Caeffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r consortiwm hefyd yn arwain o ran datblygu dulliau cydweithredol o wella perfformiad ysgolion a chefnogi datblygiad proffesiynol staff addysg.

3 Partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg yw Prosiect Gwyrdd. Mae gwastraff trefol y pum awdurdod gyda'i gilydd yn cyfrif am 40 y cant o wastraff trefol cyfan Cymru.

**Cynnydd cyfyngedig mae'r Cyngor wedi'i wneud yn rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith**

37 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i'w helpu datblygu'u cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Gan yr awdurdodau sy'n eu darparu y mae'r prif gyfrifoldeb am ystod a safon y gwasanaethau, a gweithiant yn unol â'r fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n esbonio sut y rhoddwyd ei gynllun ar waith. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r bwrdd i roi cyngor ar sut gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei adolygiadau ei hun hefyd i asesu'r ddarpariaeth gwasanaethau iaith Gymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

38 Canfu Bwrdd yr Iaith Gymraeg nad yw'r Cyngor wedi cyflawni na gwneud digon o gynnydd eto gyda llawer o'r amcanion a nodwyd yn ei *Gynllun Iaith Gymraeg*, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2008. Am yr ail flwyddyn yn olynol, canfu'r bwrdd nad yw dogfennaeth etholiadol a gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â'r cynllun. Mae diffyg data credadwy yn y Cyngor o hyd hefyd i'w alluogi i gynllunio cyflwyno gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac mae hynny'n creu mwy o risg iddo beidio â gallu cydymffurfio â'i gynllun. Mae rhai mesurau yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa, fel datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, a *Chynllun Gweithredu iaith Gymraeg* diwygiedig. Ar ôl cyfarfod diweddar gyda'r bwrdd, mae'r Cyngor yn datblygu cynnig i unioni'r gwendidau a nodwyd gan y Bwrdd.

# Mae perfformiad y Cyngor wedi gwella mewn llawer o feysydd blaenoriaeth

39 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda mae'r Cyngor yn mynd ati i wella'i wasanaethau. Mae'n adlewyrchu barnau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor i oedolion a phlant, a barnau Estyn mewn perthynas ag addysg, ac mae'n defnyddio ein hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn rhai o'r Amcanion Gwella penodol y gosododd y Cyngor iddo'i hun i'w cyflawni yn ystod 2010-11.

## Bu gwelliant mewn llawer o wasanaethau sy'n cynorthwyo pobl agored i niwed y mae angen cymorth arnynt, er nad yw effaith gwaith y Cyngor yn cael ei ddangos yn glir bob amser mewn perthynas â thai pobl hŷn

**Casgliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn datblygu ei wasanaethau gofal cymdeithasol ac mae gwelliannau pellach yn cael eu cynllunio**

40 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gynhyrchu adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cyflwyno. Nododd hunanasesiad y cyfarwyddwr yn 2011 fod gwella a moderneiddio gwasanaethau yn parhau i symud yn eithaf cyflym ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn Sir Fynwy. Bu nifer o newidiadau sylweddol yn y modd y darperir gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, er enghraifft, trwy gyflwyno *Rhaglen Llesgedd Gwent* fesul cam, ac ailstrwythuro sylweddol ar lefel uwch reolwyr yn Sir Fynwy, sydd wrthi'n cael ei ymgorffori. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cydnabod bod gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd, ond mae cryn dipyn o ffordd i fynd eto.

41 Adrodda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod perfformiad y Cyngor mewn perthynas â diogelu plant yn parhau i ddangos gwelliant parhaus, ac mae nifer o ddangosyddion perfformiad cysylltiedig yn dangos bod gwelliannau mewn perfformiad wedi'u cynnal, ac mae bellach yn dda mewn llawer o feysydd craidd. Yr eithriad i'r sefyllfa hon sy'n gwella yw'r gwasanaeth maethu, lle nad yw'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant. Bu rhai gwelliannau yn y gwasanaeth maethu ond yn arafach nag a ragwelwyd. Er bod arwyddion cadarnhaol o ddatblygu, bydd cyflymu'r newid yn hanfodol yn y flwyddyn nesaf.

42 Mae'r Cyngor wedi canoli ei swyddogaethau cyfeirio ac asesu, ac o ganlyniad ceir mwy o gysondeb mewn perthynas â gwasanaethau, a pherfformiad gwell pan fydd pobl yn gofyn am help. Mae nifer y cyfeiriadau mewn gwasanaethau plant wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2008-09 a 2010-11, a'r lefel ailgyfeiriadau hefyd. Bydd angen i'r Cyngor fonitro'r cynnydd hwn mewn cyfeiriadau yn fanwl er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

43 Yn ystod 2010-11, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gwneud gwaith moderneiddio angenrheidiol mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a rhoi trefniadau cydweithredu a threfniadau partneriaeth pwysig ar waith. Bwriada'r Cyngor ddefnyddio'r trefniadau newydd hyn i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n cynyddu rheolaeth, dewis ac annibyniaeth i'r bobl hynny sy'n defnyddio'i wasanaethau. Mae

creu un pwynt mynediad ar gyfer cyfeiriadau iechyd a gofal cymdeithasol wedi helpu lleihau dyblygu ymdrech i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac wedi creu mwy o gapasiti o fewn gwasanaethau. Yn dilyn adolygiad mewnol o wasanaethau, mae'r Cyngor wedi disodli gwasanaethau gofal seibiant traddodiadol i bobl ag anabledd dysgu gyda dewisiadau newydd mwy hyblyg, fel lleoliadau oedolion.

44 Ymhlith y newidiadau o fewn y Cyngor, adrodda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y rhoddwyd ffocws o'r newydd ar y ddarpariaeth gofal cartref mewnol, ac mae'r gwasanaethau gofal cartref allanol wedi'u hail-dendro er mwyn gwella ansawdd a chost effeithiolrwydd. Mae'n bwysig fod newid mor sylweddol a chyflymder y trawsnewid yn cael eu rheoli'n effeithiol gan eu bod yn effeithio ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau. Bydd angen i'r Cyngor barhau i sicrhau ei hun fod ganddo'r systemau priodol ar waith i reoli a chefnogi staff yn sensitif, ynghyd â'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau a'r bobl yr effeithir arnynt gan y newid.

45 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i wella'i drefniadau recriwtio a chadw staff, o fewn gwasanaethau Plant yn benodol. Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar, mae'r arwyddion hyd yma'n gadarnhaol. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â chynllunio ar gyfer olyniaeth yn fwy cadarn, yn enwedig mewn perthynas â staff cartrefi gofal sy'n heneiddio.

46 Mae'r Cyngor wedi colli rhai grantiau, ac mae hynny wedi cael effaith ganlyniadol ar swyddi yn yr adran Gomisiynu. Mae'r adran yn gweithio'n galed i wella gwasanaethau'n adeiladol, gan ddilyn yr egwyddor gwneud yn well gyda llai. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn awyddus i weld cynnydd ar y daith wella hon, ac mae'n cynllunio i gynnal adolygiad o gomisiynu, lle gellir rhoi ystyriaeth well i effaith y newidiadau diweddar.

**Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn ei drefniadau gweinyddu budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor trwy greu gwasanaeth integredig newydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

47 Gall timau budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor gyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol i ddinasyddion mewn nifer o feysydd, gan gynnwys lleihau tlodi plant, digartrefedd a bod heb waith, yn ogystal â darparu cymorth i bobl ag anableddau. Mae gwasanaethau budd-daliadau effeithiol yn galluogi pobl i gael mynediad gwell i gartrefi boddhaol, ac mae hynny yn ei dro yn helpu mynd i'r afael â materion iechyd. Gall gwasanaethau budd-daliadau sy'n perfformio'n wael greu rhwystrau i bobl sydd am fynd yn ôl i gyflogaeth am dâl, atal cymorth ariannol i'r rheiny sydd ei angen, ac achosi caledi ychwanegol.

48 Yn 2009, roedd 12 y cant o aelwydydd yn Sir Fynwy yn derbyn budd-dal tai; mae hynny'n gyfran is na chyfartaledd Cymru, sef 17.5 y cant, a'r isaf yng Nghymru. Ar gyfer budd-dal y dreth gyngor, roedd canran yr aelwydydd ychydig o dan 17 y cant, ac mae hynny eto'n is na chyfartaledd Cymru, sef 23.9 y cant, ac un o'r isaf o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Ym mis Mai 2011, poblogaeth 'oed budd-daliadau' Sir Fynwy (h.y. y rheiny a allai hawlio budd-dal) oedd un o'r isaf yng Nghymru.

49 Mae'r baich achosion o ran pobl sy'n hawlio budd-daliadau yn Sir Fynwy, ym mis Mai 2011 (y data diweddaraf sydd ar gael), wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009, o ychydig dros naw y cant. Mae'r twf hwn yn nifer y bobl sy'n hawlio dros y ddwy flynedd diwethaf yn uwch na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru, sef saith y cant, dros yr un cyfnod. Mae nifer y bobl sy'n derbyn budd-dal tai wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009 gan ychydig dros 12 y cant, ac mae nifer y bobl sy'n derbyn budd-dal y dreth gyngor wedi cynyddu naw y cant. Mae'r ddau gynnydd hwn yn uwch na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru, sef wyth y cant a phump y cant yn y drefn honno.

50 At ei gilydd yn ystod 2010-11, y cyfartaledd amser a gymera i brosesu ceisiadau newydd fel y'u cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw 48 o ddiwrnodau ar gyfer Cymru, ond ffigur y Cyngor ei hun yw 52 o ddiwrnodau. Hwn oedd y perfformiad gwaethaf ar draws 22 o gynghorau Cymru yn ystod 2010-11, ac roedd lawer yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 23 diwrnod, am yr un cyfnod. Er bod y data perfformiad mwyaf diweddar yn dangos bod amser prosesu'r Cyngor wedi gwella i 32 o ddiwrnodau yn chwarter cyntaf 2011-12 (Ebrill i Fehefin), mae angen i'r Cyngor wella'i berfformiad yn sylweddol o hyd wrth brosesu ceisiadau newydd am fudd-daliadau.

51 Daeth ein hadroddiad ar ordaliadau budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai ym mis Tachwedd 2010 i'r casgliad fod y Cyngor wedi gordalu tua'r un gyfran o fudd-daliadau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r lefel gyffredinol o ordaliadau a ddosberthir fel camgymeriad gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n dda, ac yn ystod 2009-10 ni chollwyd unrhyw gymhorthdal gan y Cyngor.

52 Er nad yw trefniadau gweinyddu ceisiadau'r Cyngor yn ddigon cadarn ar hyn o bryd i sicrhau bod pobl yn derbyn eu budd-daliadau'n brydlon bob tro, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael â hyn. Dylai trefniadau diogelwch y Cyngor sicrhau bod y budd-dal cywir yn cael ei dalu i'r bobl gywir, ond mae rhywfaint o risg y bydd y gwasanaeth yn methu. Mae'r Cyngor yn parhau i wella mynediad i'r gwasanaeth budd-daliadau mewn rhai ardaloedd, ond mae gwybodaeth reoli wael yn golygu bod ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda yr ymdrinnir â cheisiadau am ailystyriaethau ac apeliadau.

53 Mae'r Cyngor yn cydweithredu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar weinyddu budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor. Ym mis Gorffennaf 2011, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o ddatblygiad y gwasanaeth hwn a rennir, er mwyn mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ar y cyd ar gyfer y ddau gyngor. Ar gyfer 2011-12, mae 'Cytundeb Partneriaeth Gwasanaeth' ar waith, sy'n golygu bod Torfaen yn darparu swyddogaeth reoli dros dro i'r Cyngor (ar gost o ryw £94,000 i Gyngor Sir Fynwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gymryd cyfrifoldeb rheoli dros y gwasanaethau hyn) cyn datblygu'r gwasanaeth ar y cyd.

**Mae cynnydd wedi'i wneud o ran sefydlu gwasanaethau newydd i hyrwyddo mwy o annibynniaeth i bobl sy'n agored i niwed drwy Raglen Llesgedd Gwent, er ei bod hi'n rhy gynnar i asesu'r effaith**

54 Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, nodom benderfyniad y Cyngor i flaenoriaethu gwaith i gefnogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol lle bynnag y bo modd yn eu cartrefi eu hunain. Roeddem o'r farn fod hwn

yn Amcan Gwella priodol am ei fod yn adlewyrchu fod poblogaeth Sir Fynwy yn cynnwys nifer sylweddol o bobl hŷn, sy'n debygol o gynyddu yn y dyfodol.

55 Mae'r Cyngor wedi gweithredu i gyflawni ei Amcan Gwella a gefnogir gan y rhan mae'r Cyngor yn ei chwarae yn *Rhaglen Llesgedd Gwent*. Mae'r rhaglen yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer cyfeiriadau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaeth ymateb cyflym i ddelio â galwadau brys o fewn dwy awr er mwyn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae dau reolwr gwasanaeth bellach yn gweithio dros ogledd a de'r sir, ac mae ganddynt gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig, ac maent yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaeth ymateb integredig er mwyn sicrhau bob mwy o bobl yn cael gwasanaeth yn y cartref. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys nyrsys cymunedol, nyrsys cyflyrau tymor hir a staff eraill. Mae'r dyrannu integredig hwn, a phwyntiau mynediad unigol, wedi lleihau dyblygu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gan mai unwaith yn unig mae angen iddynt wneud cais i dderbyn y ddau wasanaeth, nid ar wahân fel yn y gorffennol, i iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn hefyd wedi creu capasiti mewn timau i sicrhau bod yr unigolyn iawn yn ymateb ar yr adeg iawn.

56 Mae systemau rheoli perfformiad y Cyngor i ddangos tystiolaeth o effaith y rhaglen yn eu dyddiau cynnar o hyd. Mae'r partneriaid yn dod ag adroddiadau amrywiol ynghyd o systemau rheoli gwahanol er mwyn pennu beth mae'r wybodaeth yn ei feddwl a sefydlu beth sydd angen iddynt ei fesur. Nes bod system ddibynadwy ar gyfer gwybodaeth reoli ar waith, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ystod cytbwys o ddata perfformiad, ac yn lle defnyddio data'r Dangosydd Strategol Cenedlaethol[4], mae wedi dewis mesurau mwy lleol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys data bodlonrwydd cwsmeriaid a dangosyddion meintiol eraill, fel 'canran y defnyddwyr ail-alluogi sy'n cytuno bod staff yn fy annog i wneud pethau drosof fy hun, ac yn cefnogi fy annibyniaeth a'm dewis' a 'chanran y bobl sy'n annibynnol ar ddiwedd eu hailalluogi'.

57 Bwriad y Cyngor a'i bartneriaid oedd y byddai'r rhaglen yn helpu lleihau achosion lle mae oedi o ran rhyddhau pobl hŷn o'r ysbyty. Fe wnaeth nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol i'r rhai dros 75 oed gynyddu o chwech yn 2009-10 i 40 yn 2010-11. Mae perfformiad 2009-10 yn ymddangos yn eithriadol. Mae'r perfformiad yn 2010-11 ymhlith y cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru, ac mae'n feincnod realistig i fesur effaith y rhaglen llesgedd yn ei erbyn yn y blynyddoedd i ddod.

58 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ffordd i fynd eto fel rhan o *Raglen Llesgedd Gwent* i ddatblygu sail ei dystiolaeth a'r mesurau llwyddiant sy'n adlewyrchu deilliannau go iawn i ddefnyddwyr gwasanaeth. Serch hynny, deallwn fod y Cyngor yn derbyn cyfeiriadau i'r rhaglen yn barod. O gofio'r risgiau a'r heriau, a phwysigrwydd *Rhaglen Llesgedd Gwent* o ran moderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i bobl fregus eu hiechyd yng Ngwent, byddwn yn cynnal adolygiad

4 Caiff y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol eu casglu gan bob awdurdod lleol a'u hadrodd yn eu Hadroddiadau Perfformiad. Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol allweddol. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gasglu a chyhoeddi data ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, o dan Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008.

cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Caiff y casgliadau eu hadrodd yn ein *Hasesiad Corfforaethol* nesaf.

**Fe wnaeth y Cyngor gyflawni nifer o brosiectau tai pobl hŷn yn 2010-11 ond nid yw'n siŵr a yw'r rhain wedi gwella annibyniaeth, ac mae perfformiad wedi dirywio o ran y rhan fwyaf o fesurau**

59 Nod yr Amcan Gwella yw gwella ansawdd tai pobl hŷn a diwallu eu hanghenion yn well o ran tai. Ar gyfer 2010-11, gosododd y Cyngor dri tharged:

- archwilio a gweithredu ystod o fentrau newydd gyda'r nod o wella'r stoc tai yn y sir;
- gwella ansawdd gwaith sy'n cael ei wneud o dan gynlluniau Grant Cyfleusterau i'r Anabl; a
- sefydlu a chynnal peilot o ddull gwahanol posibl o ddarparu cymorth tai i bobl hŷn.

60 Ym mis Rhagfyr 2010, aeth y Cyngor ati i *fabwysiadu Strategaeth Llety a Chymorth Tai i Bobl Hŷn*. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar alluogi a chynyddu annibyniaeth; gwella iechyd a lles; gwneud cartrefi pobl hŷn yn fwy diogel; datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sydd yn gwella profiad y dinesydd; a gwella dewis ac ansawdd gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun gweithredu gyda chyfres o dargedau y mae'n eu cyflawni mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid allweddol fel cymdeithasau tai lleol.

61 Yn yr un modd, mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o fentrau i wella'r ddarpariaeth tai a'r cymorth sy'n cael ei roi i gynnal annibyniaeth bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed. Un enghraifft yw'r ddarpariaeth cymorth fel bo'r angen[5] i denantiaid tai gwarchod gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy a'r cynllun *Supported Living / Byw gyda Chymorth* yn Lavender Gardens yn y Fenni. Fodd bynnag, fel yr adroddom y llynedd, mesurau perfformiad cyfyngedig sydd gan y Cyngor i farnu llwyddiant, ac nid yw'n sicr pa effaith mae ei weithgarwch yn ei chael ar wella annibyniaeth a chyflawni deilliannau i ddinasyddion.

62 Ychydig o fesurau priodol sydd gan y Cyngor i farnu ei lwyddiant o ran gwella ansawdd tai i bobl hŷn a pha mor effeithiol y mae'n diwallu eu hanghenion o ran tai. Mae'r mesurau yn canolbwyntio ar adrodd pa mor gyflym y mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'u cyflwyno gan y Cyngor, a faint ohonynt sydd wedi'u cyflwyno, ynghyd â bodlonrwydd y rhai sy'n eu derbyn gyda'r broses a'r deilliant. Fe wnaeth yr amser a gymerwyd gan y Cyngor i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl godi o 211 diwrnod yn 2008-09 i 339 diwrnod yn 2010-11 ac mae'n parhau'n uwch na pherfformiad cyfartalog Cymru. Hefyd, bu gostyngiad yn nifer y grantiau a gyflwynwyd, sef gostyngiad o 221 yn 2009-10 i 155 yn 2010-11, ac mae hynny'n dangos perfformiad gwael y Cyngor. Mae'r Cyngor, fodd bynnag, wedi cofnodi cynnydd yn lefel y bodlonrwydd ymhlith y rheiny sydd wedi derbyn grantiau cyfleusterau i'r anabl, gyda chynnydd o 88 y cant i 93 y cant. Nid oes unrhyw fesurau

5 Mae swyddogion Cymorth fel bo'r angen yn cefnogi ac yn cynghori pobl y mae angen cymorth arnynt i ddysgu sgiliau byw'n annibynnol.

perfformiad eraill gan y Cyngor, sy'n golygu nad yw'n gallu mesur a dangos sut mae'n diwallu anghenion pobl hŷn o ran tai.

**Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gwella ystod ac ansawdd y gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed a'u gofalwyr**

63 Mae Sir Fynwy yn gweld cynnydd parhaus yn nifer y bobl hŷn a phobl agored i niwed sy'n byw yn y sir, ac mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi'n bwysig ei fod yn darparu'r gwasanaethau iawn i fodloni anghenion pobl agored i niwed ac anghenion eu gofalwyr. Mae'r Cyngor wedi diwygio'r mesurau llwyddiant a chynnydd i ganolbwyntio ar effaith ei waith o ran creu mwy o ofalwyr a datblygu gwasanaeth cyfeillio gwirfoddol. Mae'r datblygiad hwn yn un cadarnhaol am ei fod yn galluogi dinasyddion i ganfod a yw pobl agored i niwed yn cael cymorth digonol i gynnal eu hannibyniaeth.

64 Ar gyfer 2010-11, cofnododd y Cyngor berfformiad gwell ar nifer o'r mesurau yr oedd wedi'u gosod i farnu pa mor dda mae'n darparu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, dangoswyd gwelliannau mewn perthynas â nifer y bobl hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol yn y gymuned, cyfradd y bobl hŷn sy'n derbyn gofal preswyl neu ofal nyrsio a nifer y gofalwyr newydd a dderbyniodd wasanaeth. O gymharu, mae perfformiad yn gymysg, er bod y Cyngor yn cofnodi perfformiad cymharol da iawn ar fesurau allweddol – fel cyfran y defnyddwyr gwasanaeth hŷn sy'n byw'n annibynnol, a'r nifer sydd wedi'u rhoi mewn gofal nyrsio neu ofal preswyl.

65 Ar gyfer rhai dangosyddion pwysig - sef canran y defnyddwyr gwasanaeth rheolaidd sy'n dweud wrth y Cyngor fod y gwasanaethau maent yn eu cael yn diwallu'u hanghenion, fe wnaeth y cyfraddau bodlonrwydd ostwng ychydig bach rhwng 2009-10 a 2010-11. Yn yr un modd, caiff cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r prosiectau a bennwyd yn 2010-11 ei ddisgrifio'n fras, ond nid yw'n glir bob amser a yw'r holl bethau y dywedodd y Cyngor y byddai'n eu gwneud wedi'u cyflawni mewn gwirionedd.

## Mae'r Cyngor yn helpu pobl i ddatblygu, ac mae'n cydnabod bod lle i wella o hyd

66 Mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu pa mor dda mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc ddatblygu'u sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn ysgol, fel meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Gweithiwn gydag Estyn i asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cefnogi pob un o'r gwasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc ddatblygu.

67 Pan gaiff ystod o wybodaeth gyd-destunol ei hystyried, mae perfformiad dysgwyr yn Sir Fynwy yn dda yng Nghyfnod Allweddol 1. Fodd bynnag, yng Nghyfnodau Allweddol[6] 2 a 3, mae perfformiad islaw'r cyfartaledd, ac mae gormod o ysgolion yn y 25 y cant isaf. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad islaw'r cyfartaledd ar y cyfan hefyd, ac nid oes yr un ysgol yn y 25 y cant uchaf o ran pedwar o'r pump o fesurau.

6 Cyfnod Allweddol yw cyfnod yn system addysg y wladwriaeth lle gosodir y wybodaeth addysgol a ddisgwylir gan fyfyrwyr. Mae union ddiffiniad pob un o'r pedwar prif Gyfnod Allweddol yn gysylltiedig ag oed, ac maent yn cynnwys pob disgybl o oed penodol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

68 Nid yw perfformiad Sir Fynwy yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella o gwbl dros y pedair blynedd diwethaf. Rhwng 2007 a 2010, fe wnaeth Sir Fynwy ragori ar un o dri o fesurau Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, ond ni lwyddodd i fodloni'r ddau arall. Nid oes gwybodaeth feincnod ar gyfer data 2011 ar gael eto.

69 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda, ac mae wedi bod yn dda dros y tair blynedd diwethaf. Mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi gostwng i sero dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau hefyd, ond nid yw'r rhain yn cymharu gystal ag y gellid disgwyl â chynghorau eraill ledled Cymru.

**Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ei Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac mae'n gwella ar berfformiad da mewn llawer o feysydd. Mae cefndir economaidd-gymdeithasol Sir Fynwy yn awgrymu bod lle i wella'n fawr o hyd, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4**

70 Amcan Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 oedd cyflwyno'r *Fframwaith Gwella Ysgolion* a diwygio'r ffordd mae'n darparu addysg drwy godi safonau addysg, gwella sgiliau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd, a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol. Roedd Cynllun Gwella'r Cyngor yn datgan pedwar cam gweithredu i gefnogi'r Amcan Gwella. Y rhain oedd:

- ymgysylltu â gwasanaethau addysg rhanbarthol i weithio gyda hwy, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth cymorth arbenigol i ysgolion;
- sefydlu rhwydwaith o Arweinwyr Systemau a Chymunedau Dysgu Proffesiynol er mwyn rhannu arfer da ar draws ysgolion ac adeiladu'r capasiti i wella;
- cwblhau cyflwyno'r rhaglen Llythrennedd Read/Write Inc. fesul cam ar draws ysgolion y Cyngor, a chyflawni'r statws awdurdod model am arfer patrymol; a
- gweithio gydag ysgolion, Coleg Gwent a Gwasanaeth Gyrfaoedd Cymru i gynorthwyo pobl ifanc i ddilyn cyrsiau o'u dewis.

71 Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun yn cofnodi fod y Cyngor wedi symud ymlaen â phob un o'r camau gweithredu hyn, er bod cydweithredu gyda chynghorau eraill i ddiwygio gwasanaethau addysg wedi symud ymlaen yn arafach nag yr oedd y Cyngor wedi'i ragweld.

72 Un ffocws o'r Cynllun Gwella oedd lleihau'r ganran o bobl ifanc 16 oed nad ydynt yn parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant na chyflogaeth. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei ffigur 2009-10 o 5.0 y cant i 3.9 y cant, sydd ymhell islaw'r gymhariaeth â Chymru gyfan, sef 5.4 y cant. Y llynedd, cyfeiriom at yr angen i ehangu'r mesurau perfformiad i gynnwys pethau a fyddai'n lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ac yn gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r Cyngor yn mesur effaith tlodi ar berfformiad addysgol ar hyn o bryd.

**Mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn Over Monnow wedi'i datblygu'n llwyddiannus ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar gyflenwi addysg y blynyddoedd cynnar ac ar gefnogi plant a theuluoedd**

73 Amcan Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 oedd datblygu darpariaeth *Dechrau'n Deg*[7] yn Over Monnow a gogledd y Fenni er mwyn cynnig yr un gwasanaeth yn y ddwy gymuned. Roedd Cynllun Gwella'r Cyngor yn nodi dau gam i gefnogi'r Amcan Gwella, sef:

- cynyddu nifer ac ystod y cyfleusterau a ddarperir trwy raglen *Dechrau'n Deg* yn Over Monnow; a
- chynyddu nifer y defnyddwyr sy'n mynychu sesiynau *Dechrau'n Deg* yn Over Monnow.

74 Yn ei Adroddiad Perfformiad, mae'r Cyngor yn disgrifio'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael erbyn hyn yn Over Monnow. Mae nifer y rhieni sy'n defnyddio rhaglenni rhianta wedi cynyddu o 12 yn 2009-10 i 38 yn 2010-11. Trwy ganolbwyntio'r ddarpariaeth ar un safle, mae'r Cyngor wedi gwella'r amrywiaeth o gyfleusterau ac wedi'i gwneud yn haws cael at y cyfleusterau.

75 Mae'r Cyngor yn sôn am gynnydd sylweddol yn rhai o'r mesurau a ddefnyddir i arddangos cyflawniad, fel nifer y plant a aseswyd yn 2 ac yn 3 oed o dan *Dechrau'n Deg* (cynnydd o 144 o blant ers ffigur 2009-10) a nifer y rhieni sy'n cael at raglenni rhianta (26 yn fwy na tharged 2010-11). Gan fod cynifer yn manteisio ar y rhaglen, ac oherwydd y gwelliant newidiol mewn mesurau eraill, dangosir cynnydd da ar y cyfan o ran cyflawni'r Amcan Gwella hwn.

76 Mae mesurau yn Adroddiad Perfformiad y Cyngor sy'n helpu i egluro effaith darpariaeth *Dechrau'n Deg* fel sgorau cyfartalog lleferydd ac ieithoedd i blant a gwelliant yng ngallu'r rhieni i gefnogi eu plentyn. Mae'r rhain yn fesurau da a gellid gwella'r testun trwy adlewyrchu'n well y gwahaniaeth y mae rhaglenni *Dechrau'n Deg* wedi'i wneud i blant ac i rieni, er mwyn cyfleu llwyddiant y ddarpariaeth hon yn well. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwelliant a chysylltiadau â Strategaeth Gymunedol y Cyngor, y *Cynllun Plant a Phobl Ifanc* a'r blaenoriaethau yng Nghydgynllun drafft 2011-14 (y *Cynllun Plant a Phobl Ifanc*, y Cynllun Diogelwch Cymunedol, a'r *Strategaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles*).

7 Targedir Dechrau'n Deg at blant 0-3 oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ei nod yw creu canlyniadau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir.

## Ar y cyfan, gwella mae perfformiad y Cyngor wrth helpu i greu a chynnal yr ardal yn lle diogel, ffyniannus a dymunol

**Mae nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddir gwybod amdanynt a'r troseddau sy'n cael eu cofnodi wedi gostwng yn Sir Fynwy**

77 Amcan Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 oedd lleihau effaith trais, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled pob cymuned yn Sir Fynwy. Roedd Cynllun Gwella'r Cyngor yn nodi tri mesur perfformiad i gefnogi'r Amcan Gwella, sef:

- mynd ati i hybu ymwybyddiaeth ymhlith adwerthwyr a chymryd camau mewn perthynas ag achosion o werthu alcohol a chynhyrchion eraill sy'n destun cyfyngiadau oedran yn y man gwerthu i bobl dan oed;
- bod tacsis trwyddedig ar gael yn haws i ddinasyddion, gan wneud achosion o niwed yn llai tebygol o ganlyniad; a
- bod hyfforddiant ar ddiogelu plant wedi'i wella i sicrhau yr eir i'r afael yn llawn ag anghenion y grŵp oedran 0-3, a fydd yn gwella gwaith atal amddiffyn plant yn y tymor hir.

78 Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cofnodi cynnydd da mewn mesurau allweddol fel gostyngiadau mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y sir. Er enghraifft, mae nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi gostwng o 6,633 i 5,102 rhwng 2008-09 a 2010-11. Yn yr un modd, gostyngodd cyfanswm y troseddau a gyflawnwyd yn Sir Fynwy yn yr un cyfnod o 5,430 i 4,896. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu canfod i ba raddau y cyfrannodd y Cyngor ei hun at y gwelliant cadarnhaol hwn gan nad yw wedi mesur ei gynnydd yn effeithiol yn y maes hwn.

**Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda â'i bartneriaid i roi gwell gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu ar waith drwy'r Prosiect Gwyrdd**

79 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ac wedi cyrraedd targedau gwastraff ac ailgylchu gan gynnwys cyrraedd y targed ailgylchu 40 y cant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2009-10. Parhaodd y Cyngor y perfformiad da hwn trwy ailgylchu 48.3 y cant o wastraff dinesig yn 2010-11, mewn perthynas â'r gyfradd ailgylchu genedlaethol o 43.6 y cant. Mae'r cyflawniad hwn yn golygu bod y Cyngor yn y pumed safle o'r 22 o gynghorau ledled Cymru, sy'n welliant ers 2009-10 pan oedd y Cyngor yn y seithfed safle. Mae hon yn duedd galonogol o berfformiad ailgylchu i'r Cyngor, sydd wedi ennill ei blwyf yn gyngor da o ran ailgylchu.

80 Mae'r Cyngor yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill a'r sector preifat i gaffael seilwaith trin gwastraff. Yn rhan o'r Prosiect Gwyrdd, mae'r Cyngor yn cydweithio â chynghorau Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd a Chaerffili gyda'r nod o ddarparu cynlluniau tymor hir ar gyfer trin gwastraff gweddilliol nad oes modd ei ailgylchu.

81 Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth perfformiad yn dda ar gyfer dangosyddion perfformiad cenedlaethol wrth feincnodi cymariaethau ac mae'n llunio adroddiadau rheolaidd sy'n defnyddio gwybodaeth

perfformiad am ailgylchu a dargyfeirio gwastraff o'r safle tirlenwi. Mae'r Amcan Gwella'n hyrwyddo ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio gwastraff ond mae ei ffocws yn gul ac mae'n anwybyddu maes pwysig atal gwastraff. O ganlyniad, mae llai o ffocws ar roi gwybod am gynnydd o ran cwtogi ar wastraff, er bod perfformiad y Cygnor yn gwella.

**Mae blaenoriaethu gwaith datblygu economaidd wedi'i gefnogi gan ddulliau arloesol o weithio gyda busnesau sydd eisoes yn argoeli'n dda**

82 Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, buom yn sôn mor bwysig oedd bod y Cyngor yn canolbwyntio ei waith ar gynyddu cyflogaeth a chreu economi leol amrywiol, cadarn a ffyniannus yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Yn arbennig, nodwyd bod y Cyngor wedi gosod y dasg i'w hun o sefydlu pedwar prif flaenoriaeth gwella, sef:

- dull sylfaenol newydd o hyrwyddo'r economi ac entrepreneuriaeth yn Sir Fynwy;
- gweithio gydag eraill i ddatblygu strategaeth i gynhyrchu cyflogaeth yn Sir Fynwy;
- gweithredu saith rhaglen datblygu gwledig, a phob un yn rhedeg am dair blynedd, gyda'r nod o ddatblygu a gwella'r amgylchedd economaidd, busnes a chymunedol yn Sir Fynwy; a
- gweithredu *Cynllun Datblygu Cymunedol ac Economaidd* i wella cyfleusterau cymunedol.

83 Rydyn ni'n cydnabod na fydd buddion bwriadedig y mentrau newydd hyn yn cael eu gwireddu'n gyflym efallai. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn rhoi gwybod am nifer y bobl economaidd anweithgar, y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, y gyfradd ddiweithdra a gwybodaeth am enillion cyfartalog. Yn ôl y darlun cyffredinol, yng Nghymru mae Sir Fynwy'n perfformio'n well yn hyn o beth nag ardaloedd eraill.

84 O ran cynnydd wrth gyflenwi'r meysydd gwella, mae'n amlwg bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn rhai meysydd, er enghraifft trwy greu cwmni buddiannau cymunedol[8] ac wythnos *Back 2 Business*[9]. Mae'r Cyngor wedi dechrau cyfres o fentrau ar y cyd â'r sector masnachol ac mae'n trawsnewid yn gadarnhaol ei ddull traddodiadol o ddatblygu economaidd trwy gydweithio â Menter Cymru ac mae arwyddion cynnar y gwaith hwn yn addawol. Mae'r Cyngor wedi cyflogi Menter Cymru – sefydliad cymorth busnes sy'n rhoi cymorth a chyngor i fwy na 1,000 o wahanol gwmnïau yng Nghymru bob blwyddyn – i reoli a gosod ei strategaeth datblygu economaidd yn y dyfodol. Ymhlith y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Fenter Cymru, mae rhaglenni dechrau busnes a chynlluniau gwasanaeth ymgynghori sy'n ceisio gwella perfformiad busnesau a'u helpu i greu swyddi newydd i bobl leol. Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn fud ar nifer o'r camau eraill a osododd i'w hun yn ei gynllun gweithredu ar gyfer 2010-11. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn nodi'n glir a ydy wedi cyflenwi'r hyn a ddywedodd y byddai'n ei gyflenwi yn 2010-11.

8 Cyflwynwyd cwmni buddiannau cymunedol yn y DU yn 2005 i fentrau cymdeithasol sydd am ddefnyddio eu helw a'u hasedau er lles y cyhoedd. Creodd y Cyngor gwmni buddiannau cymunedol yn 2011 o'r enw MC2.

9 Roedd wythnos Back 2 Business yn ddigwyddiad a gynhaliwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2011 gyda'r nod o hybu busnes ac entrepreneuriaeth yn lleol.

**Nid yw'n glir a ydy'r cyngor yn lleihau allyriadau carbon yn effeithiol oherwydd darlun cymysg o berfformiad a diffyg mesurau canlyniad priodol i farnu llwyddiant**

85 Yn 2010-11, cynigiodd y Cyngor gyflenwi pedair prif raglen waith o dan ei Amcan Gwella i hyrwyddo'r nod o leihau allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor a gweithio gydag eraill i leihau allyriadau yn y gymuned ehangach. Roedd gan bob un o'r rhaglenni hyn gyfres o fesurau cynnydd a osodwyd a fyddai'n galluogi'r Cyngor i roi gwybod am gynnydd yn ei Adroddiad Perfformiad.

86 Er bod y Cyngor yn gallu arddangos a disgrifio rhywfaint o'r gwaith a wnaeth yn 2010-11, canfu ein hadolygiad o gynnydd nad yw effaith y gwaith hwn yn cael ei gwerthuso a bod y mesurau a ddefnyddir i farnu a oes unrhyw un wedi elwa yn edrych ar gwtogi ar y carbon a ddefnyddia'r Cyngor yn unig, nid y gymuned ehangach. Gellid gwella Adroddiad Perfformiad y Cyngor petai'n adlewyrchu'n uniongyrchol y camau a osododd yn y flwyddyn flaenorol ar gyfer gwella a phetai'n darparu naratif yn dangos mor dda y mae wedi cyflenwi'r ymrwymiadau hyn. Er enghraifft, ni roir gwybodaeth mewn perthynas â dau o'r pedwar maes gwella a osodwyd yn 2010-11: gwaith gydag Envirowise ar leihau gwastraff sy'n dod o ganolfan hamdden, llyfrgell, siop un stop a Choed Glas; a dechrau a chyflenwi *Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol* i gartrefi. Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn rhoi sylwadau ar y rhaglenni hyn ac nid yw'n amlwg a ydy'r rhain wedi cael eu cyflenwi.

87 Gosododd y Cyngor ddau fesur perfformiad i farnu llwyddiant o ran lleihau allyriadau carbon a chyflwynodd ddarlun cymysg o welliant. Roedd y tunelli metrig o CO2 a allyrrwyd wedi cynyddu 9.2 y cant rhwng 2008-09 a 2010-11 gan godi o 9,373 i 10,330 o dunelli metrig. Roedd y gostyngiad canran mewn allyriadau carbon o adeiladau Cyngor annomestig yn cofnodi perfformiad cadarnhaol o 8.04 y cant yn codi o 1.69 y cant yn 2008-09.

## At ei gilydd, mae gan y Cyngor ddull da o werthuso gwasanaethau ac mae'n cryfhau'r ffordd mae'n adrodd am effaith ei weithgareddau ar ddinasyddion a chymunedau er mwyn mynd i'r afael â gwendidau o ran sut mae mynd ati i fesur perfformiad

**Mae asesiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac mae'n hawdd ei ddarllen**

88 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei berfformiad yn 2010-11 mewn dogfen 50 tudalen o'r enw *Ein perfformiad yn 2010/11, Cynllun Gwella – Rhan 2* (yr Adroddiad Perfformiad). Gellir darparu'r Adroddiad Perfformiad yn Gymraeg ar gais neu mewn Braille, print bras neu sain. Mae ar gael i'w lwytho i lawr o wefan y Cyngor ac mae crynodeb dwyieithog ar gael hefyd. Cafodd yr Adroddiadau Perfformiad llawn a chryno eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2011 ar wefan y Cyngor ac mae fersiynau argraffedig wedi'u dosbarthu i swyddfeydd cyhoeddus ledled y sir. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Twitter hefyd i hyrwyddo'r Adroddiad Perfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad llawn a chryno'n cynnwys adran i ddinasyddion sydd am gael rhagor o wybodaeth neu sydd am gymryd rhan yn y dyfodol.

89 Mae'n rhesymol, yn arbennig yn yr hinsawdd sydd ohoni, disgwyl i gynghorau roi gwybod am eu perfformiad ariannol yn eu *Hadroddiad Gwella Blynyddol,* gan roi gwybod faint maen nhw'n ei wario mewn meysydd gwasanaeth, a ydynt yn arbed yn ôl y bwriad a chan gynnwys cymariaethau cost. Byddai nodi effaith pwysau galw cynyddol mewn rhai meysydd ynghyd â lleihau cyllid allanol hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cynnwys adran 'Ein gwariant yn 2010/11' yn ei Adroddiad Perfformiad i roi golwg cyffredinol ar ei berfformiad ariannol, gan egluro bod angen cynllunio ariannol tymor canolig ac egluro dull y Cyngor o wneud hynny. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cyfeirio at bolisi'r Cyngor o wneud newidiadau er mwyn peidio â gwario mwy na'i incwm ac i osgoi cynyddu'r dreth gyngor.

90 Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio crynodeb o'i Adroddiad Perfformiad ei hun. Mae'r crynodeb wedi'i nodi'n glir a'i gyflwyno mewn ffordd sy'n hawdd i bobl ei darllen a'i deall. Mae'n amlwg beth yw ffocws y gwelliant; sut mae hyn yn cysylltu â'r blaenoriaethau presennol; ac mae'r wybodaeth am gynnydd yn rhoi golwg bras ar berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r holl Amcanion Gwella a osodwyd yn 2010-11 wedi'u cynnwys yn y crynodeb. Er enghraifft, nid yw 'byddwn yn archwilio ansawdd tai i fodloni anghenion pobl hŷn' wedi'i gynnwys.

91 Yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â llawer o'r materion a amlygwyd gennym yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cynnwys yn ei Adroddiad Perfformiad olwg mwy cyflawn ar ei berfformiad, fel cynnwys barn dinasyddion a gwybodaeth am gyllidebau rhaglenni gwaith penodol.

92 Ar y cyfan, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys hunanasesiad a sylwadau defnyddiol ar berfformiad y Cyngor ac mae'n bodloni cyfrifoldebau'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i roi gwybod am ei berfformiad ei hun. Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cynnwys tystiolaeth o berfformiad fel y'i mesurir gan ddangosyddion cenedlaethol a thrwy gwblhau camau a fwriadwyd; cymariaethau mewn perthynas â chyfartaledd Cymru a chwartelau ar gyfer dangosyddion cenedlaethol; a disgrifiad o gynnydd a chyflawniad mewn perthynas â'r Amcanion Gwella. Fodd bynnag, mae diffyg datganiad gwerthusol cyffredinol mewn perthynas â phob un o'r Amcanion Gwella yn gwanhau effeithiolrwydd cyffredinol yr Adroddiad Perfformiad ac nid yw rhai ffynonellau o dystiolaeth, fel casgliadau a chanfyddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdetihasol Cymru a Bwrdd

yr Iaith Gymraeg, yn cael eu defnyddio bob amser.

93 Hwn yw'r tro cyntaf y bu gofyn i gynghorau Cymru roi gwybod am eu perfformiad mewn perthynas ag Amcanion Gwella, ac mae'n rhaid disgwyl rhai cyfleoedd i ddysgu a gwella sut maen nhw'n gwneud hyn. Ar y cyfan, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio'n fwy â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, yn benodol wrth arddangos effaith ei waith ac wrth roi gwybod yn llawn am y pethau y dywedodd y byddai'n eu gwneud.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio tystiolaeth dda yn ei hunanasesiad i farnu pa mor dda mae'n perfformio a bydd gwaith pellach ar ddatblygu canlyniadau yn ei alluogi i arddangos ei effaith yn gliriach**

94 Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth nag a ddefnyddiwyd yn adroddiadau'r blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, roedd yr adran a gyfeiriai at ddatblygu economaidd yn cynnwys mwy o fanylder am gyd-destun gwaith y Cyngor a'r mesurau y mae'n bwriadu effeithio'n gadarnhaol arnynt. Dylai cynnwys dangosyddion ychwanegol a mwy perthnasol helpu dinasyddion i adolygu yn y tymor hwy a yw'r Cyngor yn cael yr effaith y mae'n bwriadu ei chael.

95 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn amlinellu'n glir i'r darllenydd pa bethau mae'r Cyngor yn ceisio ei wella a pham mae'r rhain yn bwysig i ddinasyddion Sir Fynwy. Mae'r gyfres lawn o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol wedi'i chynnwys sy'n dangos perfformiad dros y cyfnod 2008-09 i 2010-11 ac yma mha chwartel mae'r Cyngor yn eistedd. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi safle i berfformiad y Cyngor ymhlith y 22 cyngor yng Nghymru.

96 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda os yw am ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud nhw'n well fyth. Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu systemau i roi gwybodaeth ac mae ei Adroddiad Perfformiad yn disgrifio perfformiad mewn perthynas â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer tair cyfarwyddiaeth gwasanaeth y Cyngor i gyd.

97 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn rhoi gwybod yn fras a yw'n ystyried bod ei berfformiad rhwng 2009-10 a 2010-11 wedi gwella, aros yr un fath neu waethygu. Dengys y wybodaeth:

- o ran diogelu pobl agored i niwed, bod 59 y cant o ddangosyddion wedi gwella, 35 y cant wedi gwaethygu, a 6 y cant heb newid;
- o ran economi a menter, bod 80 y cant o ddangosyddion wedi gwella ac 20 y cant wedi gwaethygu; ac
- o ran addysg, bod 67 y cant o ddangosyddion wedi gwella a 33 y cant wedi gwaethygu.

98 Mae'r Cyngor hefyd yn crynhoi ei berfformiad dros dair blynedd mewn perthynas â Dangosyddion Strategol Cenedlaethol unigol, sut mae'n cymharu â chyfartaledd Cymru ac ym mha chwartel mae'n perthyn ymhlith y 22 cyngor yng Nghymru. Er bod yr wybodaeth hon yn crynhoi perfformiad yn dda, gellid ei gwella trwy ddadansoddi data'n well a

chyflwyno'r wybodaeth mewn ffyrdd sy'n galluogi dinasyddion i farnu gwasanaethau'n well. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ddatgan yn gliriach pa elfennau o'i wasanaethau sy'n gwella a pha feysydd sy'n gwaethygu ac egluro beth mae hyn yn ei olygu i ddinasyddion yn y dyfodol.

99 O ran yr Amcanion Gwella unigol, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn darparu data tuedd os yw ar gael, ond nid ym mhob achos. Er enghraifft, mae'r wybodaeth am *Raglen Llesgedd Gwent* yn adlewyrchu'r perfformiad sylfaenol yn 2010-11 a thargedau ar gyfer 2011-12 ond heb gymhariaeth â thargedau'r llynedd. Mae'r hepgoriad hwn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth y darllenydd o'r perfformiad a gyflawnwyd o'i gymharu â'r perfformiad a ddisgwyliwyd ar ddechrau'r flwyddyn a gallai fod yn ddefnyddiol ei gynnwys.

100 Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn cynnwys ychydig o wybodaeth gymharol mewn perthynas ag Amcanion Gwella penodol, er bod hyn yn gyfyngedig, yn bennaf gan mai mesurau lleol, ar y cyfan, oedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi gwelliant, ac oherwydd prin yw'r cymharu â chynghorau neu gyrff cyhoeddus eraill. Mae hefyd yn darparu naratif mewn perthynas â phob un o'r Amcanion Gwella a rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol am alw a gwariant cyllideb. Fodd bynnag, ni chyflwynir hyn yn yr un ffurf ar gyfer pob Amcan Gwella. Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol ond mae'n defnyddio data hefyd o amryw ffynonellau eraill, er enghraifft canfyddiadau ymchwiliadau craffu a gynhelir gan aelodau a data poblogaeth.

101 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn defnyddio fframwaith cyson i roi gwybodaeth ac i farnu pa welliant sydd wedi digwydd. Yn gadarnhaol, mae wedi mabwysiadu fframwaith Atebolrwydd ar Sail Canlyniad ac mae'n rhoi gwybod am bob mesur perfformiad o dan "Faint/Pa Mor Dda/A oes unrhyw un wedi elwa". Yn yr Adroddiad Perfformiad hefyd, eglurir pam mae amcanion unigol wedi'u dewis, nodir yn glir y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor ar gyflenwi'r Amcan Gwella, nodir gwybodaeth gyd-destunol fel gwariant cyllideb a sonnir yn fras am yr hyn y mae dinasyddion a phartneriaid wedi'i ddweud wrth y Cyngor.

102 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw ei ddangosyddion perfformiad cyfredol yn ei alluogi'n gyson i fesur yr effaith y mae'n ei chael i ddinasyddion, ac mae wedi gwneud ychydig o gynnydd yn datblygu mesurau a systemau cefnogi newydd ers gosod ei Amcanion Gwella cyntaf yn hydref 2010. Er bod y fframwaith Atebolrwydd ar Sail Canlyniad yn galluogi'r Cyngor i fesur effaith ei waith yn fwy effeithiol o ran cyflenwi canlyniadau i ddinasyddion, nid yw'r mesurau bob amser yn gynhwysfawr ac, mewn nifer o achosion, nid ydynt yn cyflwyno darlun cyflawn o welliant. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei wybodaeth perfformiad a, thrwy wneud gwaith pellach i fireinio mesurau canlyniad, bydd yn gallu barnu'n well sut mae'n perfformio.

**Nid yw bob amser yn glir a ydy'r Cyngor wedi cyflenwi'r holl bethau y dywedodd y byddai'n eu cyflenwi**

103 Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn crynhoi'r cynnydd y mae wedi'i wneud, ym marn y Cyngor, o ran cyflenwi ystod o weithgareddau mewn perthynas â'i Amcanion Gwella. Fodd bynnag, nid yw'r naratif ar gynnydd bob amser yn nodi'n glir a ydy'r Cyngor wedi cyflenwi'r camau a fwriadwyd mewn gwirionedd, i gefnogi rhai o'r Amcanion Gwella. Er enghraifft, yn yr adran ar fynd i'r afael â lleihau carbon a thai i bobl hŷn, ni ddisgrifir cynnydd o gwbl mewn perthynas â'r camau y bwriadai'r Cyngor eu cymryd i gefnogi ei amcanion. Yn hytrach, mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar rai o'r camau a rhai mesurau perfformiad yn unig. Heb gael gwybod beth mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn gwirionedd, nid yw'n bosibl mesur a ydy'r Cyngor wedi cyflenwi'r hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud ac a ydy'r gwell perfformiad yn deillio o'r gweithgareddau hyn.

**Mae gwaith craffu gan bwyllgorau dethol yn gwella ac mae'r gwaith ar Ymchwiliadau Aelod yn sylweddol ond nid yw'r Cyngor bob amser yn defnyddio ei bwyllgorau dethol i herio perfformiad yn effeithiol**

104 Mae gan Bwyllgorau Craffu ran bwysig i'w chwarae mewn rheoli perfformiad a chefnogi gwaith gwella. Maen nhw'n eiriolwyr cymunedol, sy'n dod â syniadau ac anghenion y gymuned i'r Cyngor er mwyn ei helpu i ddatblygu polisïau. Maen nhw hefyd yn craffu ar y penderfyniadau a wneir gan y Cabinet, ar berfformiad y Cyngor ac ar gyflawniad ei amcanion. Yn y Mesur, nodir yn glir fod rôl pwyllgorau craffu yn gydran allweddol mewn prosesau gwella cynghorau.

105 Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Arwain Strategol yn gweithio gyda phwyllgorau dethol i ddatblygu eu rhaglenni gwaith er mwyn iddynt ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i'r Cyngor ac i'r cyhoedd. Darparwyd cymorth swyddog ychwanegol i gefnogi cadeiryddion pwyllgorau dethol ac i gryfhau trefniadau rheoli. Mae angen cryfhau rôl pwyllgorau dethol o ran goruchwylio gwasanaethau Cymru gyfan, trawsffiniol a chydweithredol newydd i sicrhau bod y Cyngor yn dal yn atebol i ddinasyddion ac yn dal yn gweithio ar eu rhan. Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar lawer o'r rhaglenni hyn wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd neu maen nhw'n destun mireinio a newid heb fod trefniadau craffu ac atebolrwydd lleol bob amser wedi'u cadarnhau a/neu'n gweithredu'n effeithiol.

106 Un maes pwysig o gryfder yw gwaith ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol. Adolygiadau astudio unigol yw'r rhain a gynhelir gan aelodau sy'n gwneud argymhellion i wella'r gwasanaethau a ddarpara'r Cyngor. Mae ymchwiliadau felly'n cynnwys camau amlwg o gwmpasu'r gwaith; casglu tystiolaeth; a pharatoi adroddiad ac argymhellion.

107 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o effaith yr adolygiadau hyn yn gwella gwasanaethau – er enghraifft, yr adolygiad o wasanaethau anabledd dysgu Budden Crescent. Mae adolygiadau eraill wedi edrych ar feysydd pwysig eraill fel y boblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Fynwy; cam-drin alcohol; tai fforddiadwy; addysg: Cyfnod Allweddol 4; a datblygiad y blynyddoedd cynnar.

108 Nid yw'r Cyngor yn rhoi gwybod yn gyson i'w bwyllgorau craffu am gynnydd o ran cyflenwi Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach gwasanaethau, er bod ychydig o waith wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w adolygu. Buom yn adolygu gwybodaeth perfformiad a ystyriwyd gan aelodau ac a ganfuwyd mewn gofal cymdeithasol, fod adroddiadau rheolaidd am berfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Gwella wedi'u cael. Mewn meysydd gwasanaeth eraill, nid yw'r adroddiadau hyn yn cael eu gwneud yn gyson. Os bydd cardiau sgoriau Atebolrwydd ar Sail Canlyniad yn cael eu datblygu, dylent gryfhau gallu'r Aelodau i fynd ati'n annibynnol i herio gwasanaethau a'u dal yn atebol yn y dyfodol.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflenwi ei gytundebau canlyniad ac mae systemau cadarn i reoli perfformiad a rhoi gwybod amdano**

109 Mae cytundebau canlyniad a ddatblygir rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau unigol yn nodi sut bydd pob un yn gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl leol, a hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol y Llywodraeth. Nid yw cytundebau canlyniad yn disodli'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio gwasanaeth sylfaenol sydd eisoes yn eu lle. Yn hytrach, maen nhw'n darparu ffocws a fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ar gyfer cynllunio gwasanaeth, cynllunio adnoddau a rheoli perfformiad.

110 Yn rhan o'r asesiad hwn, buom yn adolygu cyflwyniad *Cytundeb Canlyniad* y Cyngor i Lywodraeth Cymru. Canfu ein hadolygiad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflenwi ei gytundebau canlyniad. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y cytundebau canlyniad yn bennaf yn adlewyrchu meysydd gwelliant y Cyngor. Canfu ein hadolygiad fod cydberthynas gref rhwng y cytundebau canlyniad ac Amcanion Gwella a blaenoriaethau gwella'r Cyngor. O'r 10 cytundeb canlyniad a ddewiswyd, mae naw'n cysylltu'n uniongyrchol ag Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 a dim ond un sydd heb gysylltiad uniongyrchol o gwbl.

111 Gwnaethpwyd cynnydd o ran cyflenwi'r rhan fwyaf o dargedau'r cytundebau canlyniad er bod ein hasesiad o berfformiad yn wahanol i un y Cyngor. Mae ein hasesiad ni'n amlygu y bu cynnydd da o ran cyflenwi'r rhan fwyaf o'r cytundebau a dim ond dau fesur sydd heb eu cyflawni. Daethom i'r casgliad fod tri o'r 10 mesur wedi llwyddo'n llawn; bod pump wedi llwyddo'n rhannol; a bod dau heb eu cyflawni. Mae'r asesiad hwn yn wahanol i asesiad hunanwerthusiad y Cyngor ei hun, a oedd yn dangos ei fod yn sgorio bod chwech o'r cytundebau canlyniad wedi llwyddo a phedwar wedi llwyddo'n rhannol.

112 Mae ein hasesiad o dystiolaeth y Cyngor sy'n sail i'w gytundebau canlyniad yn amlygu y cafwyd cynnydd da o ran cyflenwi'r rhan fwyaf o'r cytundebau. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir yn sail i'r asesiad yn gadarn ar y cyfan er bod meysydd i'w gwella o hyd o ran mesurau i farnu a oes unrhyw un wedi elwa. O dan rai rhaglenni, ni chafodd rhai camau ar gyfer gwelliant eu cymryd neu ni arddangoswyd eu heffaith ar y canlyniad a geisiwyd.

113 Buom hefyd yn archwilio systemau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei ddangosyddion perfformiad allweddol yn 2010 a rhoi gwybod amdanynt. Canfuom fod yr holl Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae gofyn i bob cyngor roi gwybod am berfformiad mewn perthynas â hwy, yn gywir i raddau helaeth.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Fynwy'n gwario tua £149 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gywerth â rhyw £1,695 y preswylydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £28,647 miliwn hefyd ar eitemau cyfalaf.

Y dreth gyngor band D gyfartalog yn 2010-11 i Sir Fynwy oedd £975.4 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.9 y cant i £1,003.69 y flwyddyn ar gyfer 2011-12. Mae 30 y cant o'r anheddau yn Sir Fynwy ym mandiau A i D y dreth gyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 43 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Dyma gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor:

- 27 o Geidwadwyr
- 5 Plaid Cymru/Annibynnol
- 7 Llafur
- 4 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (Annibynnol)

Prif Weithredwr Sir Fynwy yw Mr Paul Matthews. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Gynghorwr Polisi y Cyngor.

Mae'r tîm Arwain yn cynnwys:

- Moyna Wilkinson, Dirprwy Brif Weithredwr
- Andy Keep, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
- Kellie Beirne, Prif Swyddog Adfywio a Diwylliant
- Simon Burch, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Joy Robson, Pennaeth Cyllid

## Gwybodaeth arall

Yr Aelodau Cynulliad ar gyfer Sir Fynwy yw:

- Nick Ramsay, Trefynwy, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Sir Fynwy yw:

- David Davies, Trefynwy, Ceidwadol
- Jessica Morden, Dwyrain Casnewydd, Llafur; mae ei hetholaeth hi'n cynnwys adrannau etholiadol Castell Cil-y-coed, Llanddewi, Green Lane, Mill, Llanfihangel Rogiet, Hafren, The Elms a West End yn Sir Fynwy.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Cwmbrân, NP44 2XH.

# Atodiad 3
# Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy a'i ddefnydd o adnoddau

## Llythyr Archwiliad Blynyddol i Aelodau Cyngor Sir Fynwy

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilio canlynol ar 30 Tachwedd 2011.

Y Cynghorydd Peter Fox
Arweinydd
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Cwmbrân
NP44 2XH

Annwyl Gynghorydd Fox

**Llythyr Archwiliad Blynyddol i Aelodau Cyngor Sir Fynwy**

Fel y gwyddoch, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion y rhoddid gwybod amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwiliad Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Rwyf wedi manteisio ar y cyfle felly i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol i yn y llythyr byr hwn sef y Llythyr Archwiliad Blynyddol. Lluniwyd y llythyr i fod yn ddogfen annibynnol, ond bydd yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Cyngor a'r cyhoedd yn rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Cyngor Sir Fynwy â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau, er ein bod wedi nodi gwelliannau mewn rhai meysydd

**1** Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y mae'n defnyddio adnoddau, a chadw llygad ar y trefniadau hyn.

**2** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y mae'n defnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

**3** Ar 30 Medi 2011, cyhoeddais farn archwilio ddiamod am y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno barn wir a theg am drafodion a sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Rhoddwyd gwybod am nifer o faterion a gododd o'r archwiliad cyfrifon i'r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.

**4** Ers 2010-11, mae gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu eu cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Pan gyflwynwyd y safonau newydd hyn, rhoddwyd pwysau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Fel y rhoddwyd gwybod yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio, roedd y broses hon yn broblemus ac yn mynnu amser ac ymdrech sylweddol gan swyddogion a staff archwilio. Gwnaeth yr oedi a gafwyd yn ystod y flwyddyn effeithio hefyd ar y broses o lunio cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hyn o beth, llithrodd cynllun terfyn y Cyngor ei hun ac er bod y Cyngor wedi gwneud yn dda i gyrraedd y terfyn amser statudol a llunio set o gyfrifon a oedd yn cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, aeth y gwaith paratoi yn syth at y terfyn amser.

**5** Er fy mod wedi cyhoeddi barn ddiamod am y cyfrifon, rwyf wedi nodi'r maes gwelliant canlynol:

- Er bod cynnydd wedi'i wneud i wella trefniadau cyfrifyddu asedau sefydlog, o ystyried nifer y materion a nodwyd eleni, mae angen gwaith pellach o hyd i sicrhau gwelliannau yn 2011-12.

**6** Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio trwy gyfnod o newid sylweddol o ran ei strwythurau a'i brosesau gweithio, sy'n effeithio ar yr adran Gyllid a'r tîm Ystadau. Bydd hyn, ynghyd â chyflwyno a datblygu amryw drefniadau partneriaeth, yn her i'r Cyngor o ran llunio ei gyfrifon yn ystod 2011-12. Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion i sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle o ran sut mae'r heriau hyn yn effeithio ar yr amserlen gau, papurau gwaith a threfniadau gweithio rhwng adrannau ac archwilio. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio ran allweddol i'w chwarae yn y broses hon a bydd angen rhoi gwybod iddo o hyd am gynnydd.

**7** Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon ac roedd hefyd yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Nid oes materion arwyddocaol y dymunaf dynnu eich sylw iddynt ar hyn o bryd.

**8** Mae gan y Cyngor wedi strategaeth ariannol ddatblygedig ar gyfer y tymor canol ond mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

**9** Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 30 Medi 2011.

**10** Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 ryw £6,000 yn fwy na’r ffi a nodwyd yn yr Amlinelliad o Archwiliad Ariannol, o ystyried y gwaith ychwanegol a oedd yn ofynnol ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi’i drafod â’r Pennaeth Cyllid sydd wedi cytuno i hyn.

John Herniman
Cyfarwyddwr Grŵp

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion Gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy

## Amcanion Gwella Cyngor Sir Fynwy

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'Amcanion Gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y cyngor ei Amcanion Gwella yn ei Gynllun Gwella, *Edrych at y Dyfodol*, sydd i'w weld ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/improvement. Yr amcanion yw:

| Amcanion Gwella 2010-11 | Amcanion Gwella 2011-12 |
|---|---|
| Byddwn yn dod ag asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sector annibynnol ynghyd mewn un model o wasanaethau yn y gymuned (*Prosiect Llesgedd Gwent*). | Rydym am ddod ag asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac annibynnol ynghyd mewn un model o ofal yn y gymuned o'r enw *Rhaglen Llesgedd Gwent*. Yn fwy penodol eleni byddwn yn cyflwyno timau ymateb cyflym o nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr cartref sy'n cydweithio i atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. |
| Byddwn yn gwella amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu ac, os yw'n briodol, yn ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i gyflogaeth. | Rydym am wella ffyniant ein sir a'i gwneud yn fwy deniadol i fusnesau. Yn fwy penodol eleni, byddwn yn cefnogi busnesau ac yn hyrwyddo'r sir i fewnfuddsoddwyr. |
| Byddwn yn annog datblygiad economi leol fwy amrywiol, cadarn a ffyniannus ac yn llunio strategaeth cynhyrchu cyflogaeth. | Rydym am ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a chyflenwi rhaglenni effeithlonrwydd a chynnal a chadw yn gynllun adfywio cyfannol i gymunedau yng ngogledd y sir. Yn fwy penodol eleni byddwn yn canolbwyntio ar ardal Over Monnow. |
| Byddwn yn cynyddu'r lefelau sgiliau yn ein cymunedau trwy weithgareddau a dargedir o dan raglen *Dechrau'n Deg* ac yn helpu pobl â chyflyrau iechyd cyfyngus i elwa ar ymarfer. | Rydym am ddiwygio'r ffordd y darparwn addysg i sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant, ein pobl ifanc a'r gymuned ehangach. Yn fwy penodol eleni byddwn yn datblygu gwell arferion addysgu a dysgu ac yn adeiladu seilwaith TGCh modern yn ein hysgolion. |

| Amcanion Gwella 2010-11 | Amcanion Gwella 2011-12 |
| --- | --- |
| Byddwn yn cyflwyno'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* ac yn diwygio'r ffordd y darparwn addysg i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar berfformiad addysgol ac i wella sgiliau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd. | Rydym am weithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gynyddu'r gwastraff sy'n cael ei drin mewn modd cynaliadwy ac i weithio tuag at ddewis arall cynaliadwy tymor hir yn lle tirlenwi. Yn fwy penodol eleni byddwn yn datblygu rhaglen o gasgliadau bob pythefnos ledled y sir gan gynnwys compostio ac ailgylchu. Yn rhan o hyn, byddwn yn symud Prosiect Gwyrdd yn ei flaen i gynnig ffordd gynaliadwy a thymor hir o drin gwastraff gweddilliol. |
| Byddwn yn lleihau effaith trais, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled pob cymuned yn Sir Fynwy a byddwn yn archwilio ansawdd tai gan gynnwys anghenion llety pobl hŷn. | Rydym am foderneiddio'r ffordd y gweithredir y Cyngor i wella ein ffordd o weithio. Yn fwy penodol byddwn yn newid y ffordd y gweithredwn rai gwasanaethau i leihau'r costau ac i sicrhau bod arian y cyhoedd yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl. |
| Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i symud Prosiect Gwyrdd yn ei flaen i ddatblygu dewisiadau cynaliadwy yn lle tirlenwi. | |

## Hunanasesiad o berfformiad Cyngor Sir Fynwy

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad i'w weld yn y *Cynllun Gwella – Rhan 2* sydd ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/downloads/file/5698/improvement_plan_2011_section_2

# Atodiad 5

## Cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau blaenorol ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 1 Gosod Amcanion Gwella a diweddaru'r cynllun gwella corfforaethol i nodi gweledigaeth y Cyngor a'i flaenoriaethau at y dyfodol yn glir. | Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Gwella cyntaf yn ôl y gofyn ac mae wedi'u diweddaru ar gyfer 2011. Mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol er i ni nodi rhai meysydd lle dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau.<br>Mae'r cynllun gwella tair blynedd, *Edrych at y Dyfodol: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2011/14*, yn nodi'n glir weledigaeth y Cyngor wrth symud ymlaen a'i flaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf. |
| 2 Rhoi systemau ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. | Datblygwyd system newydd i gynllunio gwasanaethau, sy'n cydredeg â blaenoriaethau'r Cyngor a'r rhaglen newid trawsffurfiol mawr. Mae'r ymagwedd yn seiliedig ar gyflwyno fframwaith OBA a fydd yn llywio'r system i gynllunio a rheoli perfformiad yn y dyfodol. Yn gadarnhaol, mae fframwaith OBA yn canolbwyntio ar fan cychwyn y sefyllfa gyfredol; canlyniadau poblogaeth clir; targedau a cherrig milltir perfformiad ac mae staff yn gweld budd yr ymagwedd newydd sy'n ceisio cysylltu blaenoriaethau corfforaethol hyd at gynlluniau cyflenwi.<br>Rydym yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, mewn perthynas yn arbennig â'i Amcanion Gwella, a rhown wybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddo*l. |
| 3 Rheoli perfformiad yn well. | Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cyfres briodol o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a hefyd dangosyddion sy'n cydredeg yn agosach â gweithgarwch gweithredol.<br>Os datblygir gwell dangosyddion, bydd yn haws gwerthuso perfformiad a chraffu arno'n gadarnach. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn archwilio cynigion i gryfhau'r trefniadau er mwyn cryfhau'r adran graffu a nodi cyfleoedd i wella perfformiad gwasanaethau.<br>Rydym yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella a rhown wybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol*. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 4 Sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau'n cydredeg i gefnogi'r rhaglen trawsffurfio. | Mae system newydd i gynllunio gwasanaethau wedi'i datblygu sy'n cydredeg â blaenoriaethau'r Cyngor a'r rhaglen newid trawsffurfiol mawr. Mae'r ymagwedd yn seiliedig ar gyflwyno fframwaith OBA a fydd yn llywio'r system i gynllunio a rheoli perfformiad yn y dyfodol. Yn gadarnhaol, mae fframwaith OBA yn canolbwyntio ar fan cychwyn y sefyllfa gyfredol; canlyniadau poblogaeth clir; targedau a cherrig milltir perfformiad ac mae staff yn gweld budd yr ymagwedd newydd sy'n ceisio cysylltu blaenoriaethau corfforaethol hyd at gynlluniau cyflenwi.<br>Rydym yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, mewn perthynas yn arbennig â'i Amcanion Gwella, a rhown wybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol*. |
| 5 Hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau gwelliant parhaus yn ei swyddogaethau. | Nid yw ein gwaith i archwilio cynnydd yn y maes hwn wedi'i gwblhau a byddwn yn rhoi gwybod am hwn yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| 6 Adolygu ei gynllun gwella er mwyn:<br>• diffinio ei Amcanion Gwella yn gliriach;<br>• egluro beth mae'r Cyngor am ei gyflawni ohonynt;<br>• diffinio sut olwg fydd ar lwyddiant;<br>• dangos sut mae perfformiad yn cymharu ag eraill; a<br>• dangos sut bydd pobl Sir Fynwy'n gyfoethocach o ganlyniad. | Mae ein hadolygiad o *Edrych at y Dyfodol: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2011/14* wedi nodi sut mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella'n ceisio ei gyflawni mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor ynghyd â mesurau llwyddiant eang.<br>Nid yw'r cyswllt rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, mannau cychwyn a thargedau ategol bob amser yn cael ei brofi ac nid yw'r wybodaeth yn y cynlluniau cyflenwi ategol bob amser yn gadarn i arddangos bod yr Amcanion Gwella wedi'u cyflenwi'n effeithiol. Mae gwaith wedi dechrau i gryfhau cysylltiadau rhwng y cynlluniau gweithredu i gyflenwi Amcanion Gwella'r Cyngor a chynlluniau gwasanaeth unigol. Prin iawn y defnyddir data cymharol a data meincnod.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella a byddwn yn rhoi gwybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol*. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 7 Gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran adolygu effaith llai o gyllid ac mae'n parhau i ailwampio a diweddaru ei *Gynllun Ariannol Tymor Canolig*. Mae wedi lleihau ei flaenoriaethau i ganolbwyntio ar dri maes – ysgolion; amddiffyn pobl agored i niwed; a chefnogi menter, creu swyddi ac entrepreneuriaeth – ac mae'n cydredeg cyllidebau i gefnogi gwaith yn y meysydd hyn. |
| 8 Ymgynghori â'i ystod lawn o randdeiliaid a rhoi cyfleoedd priodol i ddinasyddion ddylanwadu ar flaenoriaethau gwella a'u llywio yn y dyfodol. | Wrth osod ei Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 defnyddiwyd canlyniad gwaith ymgynghori i lywio blaenoriaethau strategol y Cyngor. Mae'n amlwg bod rhai o'r Amcanion Gwella wedi'u llywio gan waith ymgynghori ac ymgysylltu, ond nad oedd eraill yn destun ymgynghori ac ymgysylltu nac yn seiliedig arnynt.<br>Nid oes modd cymharu'r asiantaethau/cyrff/buddiannau yr ymgynghorwyd â hwy â'r rhestr lawn o ymgyngoreion a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, dim cyfeiriad at fusnesau lleol a rhai posibl. Er bod y ffordd y gall dinasyddion lywio blaenoriaethau'r Cyngor wedi gwella, mae cyfleoedd o hyd i wella ymhellach wrth symud ymlaen. |
| 9 Sicrhau bod fframwaith y cynllun gwasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno fesul dipyn yn y 12 mis nesaf a datblygu systemau i reoli perfformiad staff yn well o ran cyflenwi blaenoriaethau. | Datblygwyd system newydd i gynllunio gwasanaethau sydd wedi'i chydredeg â blaenoriaethau'r Cyngor a'r rhaglen newid trawsffurfiol mawr. Mae'r ymagwedd yn seiliedig ar gyflwyno fframwaith OBA a fydd yn llywio'r system i gynllunio a rheoli perfformiad yn y dyfodol. Yn gadarnhaol, mae fframwaith OBA yn canolbwyntio ar fan cychwyn y sefyllfa gyfredol; canlyniadau poblogaeth clir; targedau a cherrig milltir perfformiad ac mae staff yn gweld budd yr ymagwedd newydd sy'n ceisio cysylltu blaenoriaethau corfforaethol hyd at gynlluniau cyflenwi.<br>Rydym yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, mewn perthynas yn arbennig â'i Amcanion Gwella, a rhown wybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol*. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 10 Adnabod safonau gwasanaeth gofynnol i bob maes gwasanaeth, a sicrhau bod modd monitro perfformiad mewn perthynas â hwy. | Prin fu'r cynnydd o ran gosod safonau gwasanaeth gofynnol a byddwn yn gweithio i archwilio'r cynnydd yn y maes hwn a byddwn yn rhoi gwybod am hyn yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| 11 Darparu hyfforddiant i reolwyr canol ac aelodau etholedig ar reoli ariannol a rheoli cyllidebau i gefnogi cynlluniau ariannol tymor canolig. | Bydd y Cyngor yn adolygu anghenion hyfforddiant aelodau ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012. |
| 12 Mae *Edrych at y Dyfodol: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2011/14* yn bodloni gofynion allweddol y Mesur. Fodd bynnag, er mwyn dilyn y cyfarwyddyd statudol yn llawnach, cynigiwn y dylai'r Cyngor:<br>• gynnwys gwybodaeth ehangach am weithgareddau a chanlyniadau mewn meysydd nad ydynt yn cael sylw yn yr Amcanion Gwella, yn arbennig effaith yr arbedion a'r dadfuddsoddiadau sydd ar y gweill;<br>• cynnwys cymariaethau â safonau mewnol ac allanol a chymariaethau uned a chyfanswm costau cyflenwi dros amser a chyda chynghorau eraill; a<br>• sicrhau bod crynodeb a fersiynau Cymraeg hygyrch o'r cynllun ar gael yr un pryd ag y caiff y fersiwn Saesneg ei chyhoeddi. | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Gwella nesaf yng ngwanwyn 2012. |
| 13 Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu trefniadau cydweithio a gwasanaethau integredig, sy'n destun gwerthusiad rheolaidd o'u heffaith. | Byddwn yn monitro cynnydd y Cyngor ac yn rhoi gwybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |
| 14 Ffurfioli a chyhoeddi'r cynllun gweithlu sy'n gosod gofynion staffio'r dyfodol sy'n cydredeg â gwaith ar reoli asedau a chynllunio ariannol tymor canolig. | Byddwn yn monitro cynnydd y Cyngor ac yn rhoi gwybod am ein canfyddiadau yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* nesaf. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk